Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Swyddog Datblygu Gogledd Cymru

£19.19 yr awr, isafswm 22 awr yr wythnos (£36922 FTE - pro rata £21954).
Parhaol. **Dyddiad cau 19 Ionawr 2025 (Ganol Nos)**

***Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, ac mae'n cynnig llais cryf i gynrychioli buddiannau cynghorau cymuned a thref ar lefel genedlaethol. Mae'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi eu gwaith, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, cymorth gyda pholisi a gweithdrefnau, gwasanaethau hyfforddiant a datblygu, gwasanaethau ymgynghorol, a chynrychioli a hyrwyddo'r sector.***

Mae Un Llais Cymru yn chwilio am unigolyn deinamig a rhagweithiol i ymuno â'n tîm ac ymgymryd â rôl **Swyddog Datblygu Gogledd Cymru.**

**Mwy am y Rôl**
Byddwch yn chwarae rôl allweddol yn datblygu a chynnal perthynas waith agos ac effeithiol a chefnogi a chryfhau ein haelod gynghorau. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Bod yn brif gyswllt ar gyfer aelod gynghorau a darparu cyngor ac arweiniad arbenigol.
- Trefnu a rheoli cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal, gan gynnwys siaradwyr gwadd a chymryd cofnodion.
- Denu aelodau newydd trwy weithio gyda chynghorau.
- Llunio e-fwletinau misol diddorol a llawn gwybodaeth.

**Beth Rydym yn Chwilio Amdano**
I lwyddo yn y rôl hon, byddwch angen:

- Dealltwriaeth gadarn o lywodraeth leol yng Nghymru, a chynghorau cymuned a thref yn enwedig.
- Sgiliau rhyngbersonol eithriadol, ac mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl yn hanfodol.
- Y gallu i weithio'n annibynnol (byddwch yn gweithio o'ch cartref) ac i fod yn rhan annatod o dîm cydweithredol.
- Sgiliau TGCh cryf a'r gallu i sylwi ar fanylion.

Byddai cymhwyster yn gysylltiedig â'r sector yn fonws, ac er bod yr oriau'n hyblyg, bydd angen gweithio gyda'r nos o bryd i'w gilydd ac ar ambell ddydd Sadwrn.

**Pam Ymuno â Ni?**
Mae hon yn fwy na swydd — mae'n gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy gefnogi cynghorau lleol i gyflawni dros eu cymunedau a chreu gwell Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth, mae croeso ichi ffonio 01269 595400 neu e-bostio gweinydd@unllaiscymru.cymru <mailto:gweinydd@unllaiscymru.cymru>

I gael mwy o fanylion am y swydd, gan gynnwys y disgrifiad swydd, manyleb berson a ffurflen gais, gwasgwch ar y ddolen ganlynol: http://www.unllaiscymru.org.uk/

**SYLWER: NI DDERBYNNIR DOGFENNAU CV**